# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Mawrth 8fed 2023

**Presennol**

Cyng. S.Roberts, D.Morris, C.Edwards, Gavin Jones.

**Ymddiheuriad** - Cyng Griffiths,Cyng Dixon,Cyng S.Jones,Cyng Hughes

**Cofnodion Chwefror 2023.**

Cynnigodd Cyng D. Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng S. Roberts.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod**.

Dim.

**Materion yn codi.**

**Giat Green Lane**- Mae'r clerc wedi cysylltu a Nicola Maysmor CNC.

Mae sawl asiantaeth mewn ymgynghoriad sut I ddatrys y broblem yma.

Mae'r clerc wedi gofyn am ddiweddariad gan Nicola pan fydd penderfyniad wedi ei wneud.

**Ffordd Ty Cerrig**-Mae Cyng Griffiths wedi derbyn gwybodaeth fod system penodi gwaith" ardal ni" ddim yn gweithio a fod yna ddiffyg gwybodaeth ynghylch lleoliad a'r math o waith sydd angen ei wneud.

Gyda'r wybodaeth yma mewn golwg mae'r clerc wedi cysylltu a tim tacluso cyngor Gwynedd a gofyn iddynt ymweld a'r safle hwn a chwblhau'r gwaith clirio.

**Ffordd ger blwch post yn Hermon-** Bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod mis Ebrill.

**Graeanu ffyrdd cefn gwlad**- Bydd y cyngor ond yn graeanu ffyrdd cefn gwlad e.e Hermon/Abergeirw yng ngolau dydd rhwng 8yb a 1.30yp.

**Maesgwm –** Bydd gwaith torri coed yn cael ei gwblhau gan asiant “trunk roads” yn yr wythnosau nesaf.

Dywedodd Cyng Morris fod problem o hyd gyda gwelededd wrth ddefnyddio’r gyffordd yn y lleoliad hwn.

Clerc I gysylltu ar asiantaeth I drafod y mater.

**Cyngorhydd Sir-** Darllenodd y clerc adroddiad cynhwysfawr a gyflwynwyd gan Cyng Griffiths am nifer o faterion a digwyddiadau yn ymwneud ar ardal. Mae llawer o’r materion wedi’u cofnodi ar y ddogfen hon.

**Ambiwlans awyr.**

Mae cyllid wedi ei ddarparu i sicrhau gwasanaethau’r ambiwlans awyr yn ein cymuned.

**Cyfarfod cwmni Magnox yn Trawsfynydd**- Mae’r cyngor wedi derbyn e-bost yn gofyn os byddant a diddordeb cynnal sesiwn”galw heibio” hefo aelodau cwmni Magnox i drafod y cais cynllunio “pnds complex demolition”.

Wrth ymateb i’r cynghorwr sir mae’r clerc wedi cadarnhau bydd y cyngor a diddordeb.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Chwerfor 2023

Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: £4494.67

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £8.00 |
| Aelodaeth Un Llais Cymru | £32.00 |
| E.Ap Gomer (safle we) | £211.00 |

Yn y Banc diwedd mis £4143.67

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Rhoddion- Wedi trafodaeth fydd y cygor yn dosbarthu’r rhoddion isod;

Neuadd y pentref £350.00

Capel Libanus £150.00

Bydd y clerc yn gwneud ymholiadau i ganfod a allai’r cyngor ddatblygu cyfrif banc “online” er mwyn arbed arian drwy beidio a thalu taliadau Banc.

**Unrhyw fater arall**.

Dim